# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Ael-y-bryn**

**Cartref Ael-y-bryn**
**Heol Pen-y-banc**
**Rhydaman**
**SA18 3HS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26/07/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Ael-y-bryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Barleybind Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Ionawr 2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Ael-y-bryn a'u cynrychiolwyr yn hapus gyda'r gofal a chefnogaeth gyson a gânt gan dîm profiadol o weithwyr gofal.

Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn fanwl ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Mae dogfennau hanes bywyd yn dangos i'r staff gofal beth sy'n bwysig i'r bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar.

Mae'r trefniadau llywodraethu yn gadarn. Mae gan y rheolwr oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth a ddarperir ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo arferion diogel. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus yn gweithio i'r gwasanaeth ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân ac yn rhydd o beryglon ond byddai ar ei ennill pe gwneid gwaith ailaddurno mewn rhai mannau. Mae gwiriadau rheolaidd, a gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd, yn sicrhau bod y cartref a'i gyfleusterau'n ddiogel.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hwyluso i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae cynlluniau gofal yn dangos yr ymgynghorwyd â phobl a'u cynrychiolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu galluogi a'u hannog i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae asesiadau risg rheolaidd yn sicrhau bod y bobl yn aros mor annibynnol â phosibl.

Mae gweithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda yn dangos urddas a pharch i'r bobl. Dywedodd perthynas wrthym, *“Mae hi'n cael cawod yn rheolaidd ac yn cael ei gwallt wedi gwneud yn wythnosol, ac mae ei hewinedd wedi cael eu paentio am y tro cyntaf yn ei bywyd.”* Mae'r gweithwyr gofal yn caniatáu i bobl gymryd eu hamser, ac nid ydynt yn cael eu rhuthro i gwblhau tasgau bywyd bob dydd. Dywedodd perthynas wrthym, *“Mae ganddynt gymaint o amynedd gyda fy modryb.”* Mae'r bobl yn cael eu sicrhau a'u cysuro gan weithwyr gofal sy'n sensitif i'w hanghenion pan ymddangosant yn ofidus neu'n bryderus. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Rwy'n hoffi dweud wrthyn nhw beth sy'n digwydd, bob cam, beth rydyn ni'n ei wneud, yn enwedig gyda'r teclyn codi.”*

Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn. Mae cyfathrebu da yn y tîm ac mae'r staff uwch yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel meddygon, nyrsys ardal a deintyddion pan fo angen. Dywedodd aelod teuluol wrthym, “*Mae ei phodiatrydd a'i deintydd wedi bod allan i'r cartref.”*

Mae'r bobl yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn y cartref ac yn hyderus i leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt. Dywedodd un person wrthym, *“Rwyf wrth fy modd yma – os nad wyf yn hapus am unrhyw beth, rwy'n dweud wrth fy mab neu fy ngweithiwr cymdeithasol.”* Mae'r cartref yn ddiogel gan fod angen i ymwelwyr ganu'r gloch i gael mynediad ac i lofnodi'r llyfr ymwelwyr fel bod y staff yn gwybod pwy sydd yn yr adeilad ar bob adeg. Hefyd, mae'n ofynnol i ymwelwyr fod wedi cael prawf COVID-19 negatif cyn dod i mewn, er mwyn amddiffyn y bobl cymaint â phosibl rhag y feirws. Mae'r staff gofal yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol pan fyddant mewn cysylltiad agos â'r bobl y maent yn eu cynorthwyo, ac mae mesurau hylendid da a rheoli heintiau effeithiol ar waith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Dywedodd perthynas wrthym, *"Dyma'r hapusaf mae hi wedi bod ers pedair blynedd."* Dywedodd perthynas arall, *"Fyddwn i ddim yn oedi dim cyn argymell y lleoliad a'r staff."* Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt a oedd yn dangos cynhesrwydd ac anwyldeb. Dywedodd un person wrthym, *"Maent [y staff gofal] yn garedig – rwy'n berffaith hapus yma."* Gwelsom hefyd y staff gofal yn defnyddio hiwmor a thynnu coes ysgafn wrth ryngweithio â'r bobl.

Mae'r cynlluniau personol yn glir ac yn ei gwneud yn hawdd i'r staff gofal gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu'r lefel briodol o ofal a chymorth. Mae'r cynlluniau'n fanwl ac yn cynnwys darlun ysgrifenedig sy'n galluogi'r staff gofal i ddeall a chydnabod eu diddordebau a hanes eu bywydau. Caiff canlyniadau personol a sut y cânt eu cyflawni eu cofnodi'n glir. Dywedodd un person wrthym sut mae hi'n hoffi mynd allan gyda'r teulu. Dywedodd aelod teuluol wrthym fod y staff wedi paratoi bag, pan aeth â'i pherthynas allan am y diwrnod, gyda phopeth y gallai fod ei angen arni i sicrhau y gellid diwallu anghenion y person pan oedd yn absennol o'r gwasanaeth.

Mae cynlluniau gofal unigol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y staff gofal a chaiff unrhyw newidiadau i anghenion y person eu dogfennu i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod rhai pobl yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau, ac yr ymgynghorir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ôl yr angen. Er i gynrychiolwyr y bobl ddweud wrthym eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i anghenion gofal, ni welsom dystiolaeth yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod adolygiadau. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr a bydd yn cael ei wirio yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r cofnodion gofal dyddiol yn drylwyr ac yn cynnwys manylion y gofal a'r cymorth a dderbyniwyd, unrhyw ymwelwyr, a gweithgareddau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, nid yw'r eirfa a ddefnyddir bob amser yn adlewyrchu urddas: gwelsom y gair 'padiau' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymhorthion ymataliaeth a chyfeiriwyd at reiliau diogelwch gwely fel 'rheiliau cot'. Rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried defnyddio iaith arall i ddisgrifio'r rhain a sicrhau cysondeb ym mhob cofnod personol.

Cymerir camau i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac ni fyddent yn oedi cyn adrodd i staff uwch a/neu reolwyr am unrhyw bryderon. Nid yw ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio gan y staff ar eu ffonau ar hyn o bryd, ond cytunodd y rheolwr y byddai'n ystyried defnyddio'r ap hwn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Mae'r cynllun yn cefnogi'r bobl i barhau mor annibynnol â phosibl ac mae coridorau'n cael eu paentio mewn gwahanol liwiau llachar i helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Hefyd, mae arwyddion clir ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r bobl yn dewis treulio'u hamser mewn ardaloedd cymunol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Anogir y bobl i addurno eu hystafelloedd ag eitemau personol fel ffotograffau ac addurniadau.

Mae gardd y tu allan y gall y bobl ei mwynhau ond, yn ystod yr ymweliad cychwynnol, roedd yn ymddangos fel nad oedd neb yn gofalu amdani. Yn ystod yr ymweliad dilynol, roedd rhai gwelliannau wedi'u gwneud. Mae'r gweithiwr cynnal a chadw yn cydnabod nad oes ganddo'r amser ar bob adeg i ofalu am yr ardd.

Gwelsom dystiolaeth bod aelodau staff yn adrodd am fân waith cynnal a chadw yn y cartref a bod y tasgau hyn yn cael sylw mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae angen ailaddurno'r paent ar y waliau ac ar ganllawiau drwyddo draw'r cartref a gwelsom un rheiddiadur yn dod yn rhydd o'r wal. Mae hyn wedi cael ei drafod gyda'r rheolwr ac rydym yn sicr y bydd hyn yn cael sylw. Nododd yr unigolyn cyfrifol fod angen rhywfaint o waith addurno ar y cartref yn ystod yr adroddiad chwarterol diweddar ac mae cynlluniau i ddechrau ar hyn. Mae carped newydd wedi'i brynu ar gyfer y lolfeydd, yr ardaloedd cymunol a rhai o'r ystafelloedd gwely ac mae gwaith wedi dechrau i osod lloriau newydd.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o haint ac arferion hylendid da ledled y cartref. Gall gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae'r holl fesurau'n cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau COVID-19, gan gynnwys monitro a phrofi pob ymwelydd i'r cartref a defnydd rheolaidd o gyfarpar diogelu personol gan yr holl weithwyr gofal. Er bod y cartref yn gyffredinol yn storio cynhyrchion glanhau yn ddiogel, gwnaethom nodi bod ewyn eillio wedi cael ei adael mewn ystafell ymolchi gymunol i unrhyw un ei gamddefnyddio o bosibl. Trafodwyd hyn gyda'r aelod o staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

At ei gilydd, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, gan roi sylw cadarnhaol i bob unigolyn sy'n derbyn cymorth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'r ymweliadau chwarterol a'r adroddiad sicrhau ansawdd yn dangos bod safbwyntiau'r bobl, eu cynrychiolwyr a staff yn cael eu hystyried. Gwnaethom edrych ar yr adroddiad ansawdd gofal diweddaraf, sy'n nodi'n glir gryfderau'r gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle gellir ei wella. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn gan broses recriwtio ddiogel ac mae'r staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a cheir geirdaon cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Nodwyd rhai bylchau mewn cofnodion cyflogaeth blaenorol a thrafodwyd hyn gyda'r rheolwr, a fydd yn sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol. Edrychir ar hyn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i ymgymryd â'u rolau'n effeithiol, ond nodasom rai bylchau yn eu hyfforddiant. Mae hyn wedi'i drafod gyda'r rheolwr, a roddodd sicrwydd i ni fod yr hyfforddiant gofynnol yn cael ei drefnu. Byddem yn disgwyl gweld yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol erbyn yr arolygiad nesaf. Mae goruchwylio ac arfarnu yn rhoi cyfle i weithwyr gofal drafod pynciau sy'n ymwneud â gwaith gyda'u rheolwr a monitro eu perfformiad. Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr gofal yn cael y lefel o gymorth ffurfiol sy’n ofynnol o dan y rheoliadau.

Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae’r rheolwr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd a disgrifiodd y staff ef fel “*hawdd mynd ato a chefnogol*”. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, “*Mae'r [rheolwr] bob amser yno os oes unrhyw broblem, mae e eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn iawn ac yn ddiogel bob amser. Rydym fel teulu bach.”* Dywedodd aelod arall o staff fod y rheolwr “*yn ein trin yn gyfartal ac yn gefnogol i'r holl staff*”. Dywedodd y gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw pa mor dda y mae’r tîm yn gweithio gyda’i gilydd a dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *“Mae'r bobl rydw i'n gweithio gyda nhw yn galonogol ac yn barod i helpu.”*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/09/2022